

COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

Y CABINET

DYDD MERCHER, 21 CHWEFROR 2024

Cabinet Members:

Cynghorwyr:: S.K.Hunt, N.Jenkins, J.Hurley, S.Harris, J.Hale,
A.Llewelyn, W.F.Griffiths, S.Jones a/ac C.Phillips

Swyddogion yn bresennol:

K.Jones, N.Pearce, A.Jarrett, A.Thomas, N.Daniel, H.Jones, C.Griffiths,
A.Thomas a/ac T.Davies

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd S K Hunt yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **CYHOEDDIAD(AU) Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

4. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

5. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

6. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD - GWAHARDD Y CYHOEDD**

PENDERFYNWYD: Yn unol â Rheoliad 4 (3) a (5) o Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, fod y cyhoedd yn cael eu gwahardd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

7. **SEFYDLU CELTIC FREEPORT COMPANY LIMITED**

Penderfyniadau:

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig:

1. Bod y cynnydd presennol mewn perthynas â chymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol yn cael ei nodi.
2. Bod y cynnig i sefydlu cwmni cyfyngedig drwy warant, a adwaenir fel Celtic Freeport Company Limited, yn cael ei gymeradwyo, ac awdurdodi'r Cyngor i gael budd aelodaeth yn Celtic Freeport Company Limited, a rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd i lofnodi'r cytundebau priodol i ddogfennu'r budd hwn.
3. Cymeradwyo'r Erthyglau Cymdeithasu a'r Cytundeb Aelodau Drafft a amgaewyd yn Atodiad 1 ac Atodiad 2 i'r adroddiad preifat a ddosbarthwyd, a rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (mewn ymgynghoriad â'r arweinydd) i lofnodi'r Cytundeb Aelodau ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.
4. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Prif Weithredwr (mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Aelod Cabinet perthnasol) i gytuno i unrhyw amrywiadau bach i'r Cytundeb Aelodau a'r Erthyglau Cymdeithasu a all fod yn angenrheidiol cyn eu llofnodi, ar y sail na fydd pob dirprwyaeth yn cynnwys unrhyw

ymrwmiadau ariannol amgen ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

5. Enwebu Cyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio fel cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot dros Fwrdd Cyfarwyddwyr Celtic Freeport Company Limited, a rhoi awdurdod iddo weithredu fel Cyfarwyddwr Celtic Freeport Company Limited.
6. Rhoi indemniad i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd ac Adfywio yn y ffurflen a atodwyd yn Atodiad 3 i'r adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

Rheswm dros y penderfyniadau:

Ceisio cymeradwyaeth gan aelodau mewn perthynas â dogfennaeth lywodraethu arfaethedig y Cwmni, bod y Cwmni'n cael ei gynnwys fel cwmni gweithredol a bod y Cyngor yn cael aelodaeth ac yn penodi cyfarwyddwr i fod yn aelod o fwrdd y Cwmni.

Rhoi Penderfyniadau ar Waith:

Mae'r penderfyniadau i'w rhoi ar waith ar unwaith, yn dilyn cytundeb Cadeirydd Craffu'r Cabinet.

Ymgynghoriad:

Datblygwyd y cais porthladd rhydd gan y ddau awdurdod lleol, Associated British Ports ac Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau drwy weithio mewn partneriaeth. Cafwyd ymgynghoriad ehangach hefyd gydag amrywiaeth eang o sefydliadau'r sector cyhoeddus a phreifat gan gynnwys rhwydweithiau busnes o fewn ardal arfaethedig y porthladd rhydd.

CADEIRYDD